Mawrth / March 2020

GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Health Education and Improvement Wales (HEIW

Diweddariad rheolaidd yw hwn i bartneriaid a rhanddeiliaid ar ddatblygiad Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gan ei Brif Weithredwr, Alex Howells.

Helpwch ni i ledaenu'r neges am Addysg a Gwella Iechyd Cymru drwy gylchredeg y bwletinau hyn i'r holl staff.

This is a regular update for partners and stakeholders on progress from Health Education and Improvement Wales (HEIW) from its Chief Executive, Alex Howells.

Please help to spread the word about Health Education and Improvement Wales by circulating these bulletins to all staff.

Click here to read the newsletter in English

Annwyl bawb,

Newidiadau yn ein Tîm

Bydd llawer ohonoch eisoes yn gwybod bod Stephen Griffiths yn ymddeol o'i rôl fel Cyfarwyddwr Nyrsio. Mae Stephen wedi bod yn aelod hanfodol o'n tîm yn y broses o sefydlu'r sefydliad newydd a datblygu ein cynlluniau a'n huchelgeisiau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Rydym yn drist ei fod yn ein gadael ond yn cefnogi ei benderfyniad yn fawr ac yn dymuno'r gorau iddo ar gyfer ei ymddeoliad. Mae hyn yn golygu y bydd gennym le gwag yn ein tîm gweithredol ac y byddwn yn ceisio ei lenwi yn ystod y misoedd nesaf.

Yn ogystal, yr ydym yn y broses o hysbysebu secondiadau ar gyfer Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol a Chyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformio i ymuno â ni, er mwyn sicrhau bod gennym y capasiti a'r arbenigedd iawn i'n galluogi i gyflawni'r cynlluniau yr ydym wedi'u cyflwyno dros y tair blynedd nesaf. Bydd y rhain yn cael eu hysbysebu ar https://www.jobs.nhs.uk/

Cynllun Tair Blynedd

Mae ein cynllun tair blynedd cyntaf (CTCI) wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Wedi ei ddyrannu i chwe nod strategol, rydym wedi datblygu ystod o flaenoriaethau a rhaglenni gwaith i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth o weddnewid y gweithlu ar gyfer Cymru Iachach. Y chwe nod strategol yw:



Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cymeradwywyd drafft terfynol Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru a Bwrdd AaGIC ym mis Rhagfyr. Mae hyn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a byddwn yn rhoi gwybod i chi am y camau nesaf cyn gynted â phosibl.

Strategaeth arweinyddiaeth

Fel rhan o Strategaeth y Gweithlu, rydym yn parhau i gefnogi'r broses o ddatblygu arweinyddiaeth ar y cyd a thosturiol ar draws GIG Cymru.

Mae dogfen egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol wedi'i llunio yn seiliedig ar y dystiolaeth helaeth ar gyfer arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol, ac adborth a gafwyd yng nghynhadledd ymgynghori a chyswllt strategaeth y gweithlu

I&GC. Caiff yr egwyddorion hyn eu tanategu gan fframwaith gweithredu. Bydd ymgynghoriad ffurfiol o chwe wythnos ar yr egwyddorion hyn yn dechrau Mawrth 2020.

Mae Porth Arweinyddiaeth AaGIC yn parhau i fynd rhagddo gyda nifer o safleoedd peilot wedi'u sefydlu. I weld cyfweliad ar arweinyddiaeth dosturiol gyda'r Athro Michael West, dewiswch y ddolen yma.

Mae gweithdai arweinyddiaeth a digwyddiadau a drefnwyd trwy gydol mis Chwefror 2020 wedi cynnwys:

• adolygu ac adnewyddu Fframwaith Cymhwysedd Craidd y GIG ar gyfer Rheolwyr a Goruchwylwyr (i'w lansio Gwanwyn 2020)
• adolygiad o'r pecyn cymorth Diwylliant ac Arweinyddiaeth a ddatblygwyd gan GIG Lloegr gyda'r bwriad o fabwysiadu'r adnoddau hyn i gefnogi sefydliadau ar draws GIG Cymru

Cysylltwch â Helen Thomas am ragor o wybodaeth, neu i fod yn rhan o unrhyw rai o'r ffrydiau gwaith Arweinyddiaeth.

Adolygiad strategol o addysg broffesiynol iechyd

Mae'r adolygiad strategol o addysg broffesiynol ym maes iechyd yn pennu ffurf addysg ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Fel rhan o'r gwaith hwn, dros yr ychydig fisoedd nesaf rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru gan gynnwys darparwyr addysg a sefydliadau'r GIG. Byddwn hefyd yn profi themâu allweddol gyda myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau cleifion i sicrhau bod y fanyleb derfynol yn addas i'r diben er mwyn galluogi'r broses gaffael i ddechrau.

Mae'r themâu sy'n deillio o'r adolygiad yn cyd-fynd â'r rhai yn Strategaeth ddrafft y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chymru

Iachach. Mae'r themâu allweddol yn ychwanegu gwerth at ddatblygu contract addysg newydd sy'n cwmpasu'r holl Addysg Broffesiynol Iechyd yng Nghymru a fydd yn canolbwyntio ar:

- AaGIC yn datblygu ei rôl i gefnogi **staff sydd newydd gymhwyso**
- Datblygu **rôl strategol** ymhellach mewn darparu lleoliadau
- **Dull lleol/rhanbarthol o gomisiynu** lle y bo'n briodol
- Adeiladu **gwydnwch** yn y system
- Defnyddio technolegau i **wella addysgu, cymorth i fyfyrwyr a pharatoi lleoliadau**
- Integreiddio'r **amgylchedd digidol** i ddysgu
- Datblygu addysg a hyfforddiant ar draws yr **holl lwybr gyrfa**
- Sefydlu dull gwell o ymdrin ag **addysg ryng-broffesiynol**
- Datblygu **llwybrau hyblyg**
- Trefniadau **gweithio triphlyg** agosach
- Gwella **ymatebolrwydd** i angen gwasanaeth/polisi LIC
- Cefnogi myfyrwyr o **gefndiroedd difreintiedig**
- **Dysgu gwasgaredig**
- **Arweinyddiaeth glinigol**

Bydd y themâu hyn yn cael eu hystyried mewn contractau sy'n dod i rym o 2021/22.
Mae tri digwyddiad rhanddeiliaid adolygu strategol rhanbarthol ar gyfer cynigwyr posibl;

- 17 Mawrth: Gogledd Cymru, Venue Cymru Llandudno.
- 20 Mawrth: De Cymru, Canolfan Gwyddor Bywyd, Bae Caerdydd.
- 25 Mawrth: Gorllewin Cymru, Gerddi Botaneg Cenedlaethol, Caerfyrddin.

Am unrhyw wybodaeth bellach ynghylch caffael y contract hwn, cysylltwch â Gemma Roscrow neu Francesca Havard Evans neu ar gyfer ymholiadau

AaGIC, cysylltwch â Martin Riley.

Cyfarfodydd comisiynu addysg a hyfforddiant blynyddol

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal cyfarfodydd â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i adolygu'r ddarpariaeth addysg feddygol i raddedigion i sicrhau bod hyn yn cydymffurfio â safonau'r GMC. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr iawn i gwrdd â'r cyfarwyddwyr gweithredol a'r timau addysg o sefydliadau unigol. Eleni, mae'r sgyrsiau wedi bod ar ffurf newydd gan ein bod wedi bod yn siarad nid yn unig am feddygaeth ond am yr holl broffesiynau iechyd eraill yn unol â'n huchelgais i fod yn sefydliad amlbroffesiynol gwirioneddol.

Mae optometryddion rhagnodi annibynnol bellach yn gallu ysgrifennu presgripsiynau'r GIG

Rydym wedi bod yn gweithio gyda byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan optometryddion sy'n rhagnodwyr annibynnol cofrestredig fynediad i badiau presgripsiwn WP10 y GIG. Bellach, gall optometryddion rhagnodi annibynnol yng Nghaerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg ac Aneurin Bevan ysgrifennu presgripsiynau'r GIG ar gyfer cleifion yn uniongyrchol yn dilyn asesiad llygaid. Yn y gorffennol, byddai angen i gleifion weld yr optometrydd i gael eu hasesiad llygaid ac yna i'w meddyg teulu gael y presgripsiwn. Galluogi defnyddio presgripsiynau'r GIG bellach gall optometrydd reoli mwy o gleifion yn ymarferol yn lle cyfeirio at feddyg teulu neu ysbyty llygaid. Mae AaGIC hefyd yn noddi optometryddion i ddilyn cyrsiau rhagnodi annibynnol fel y bydd gan bob clwstwr yng Nghymru, yn y tair blynedd nesaf, optometrydd rhagnodi annibynnol.

Sioe Deithiol AaGIC

Rydym wedi bod yn ein hôl ar y ffordd gydag ymweliad llwyddiannus â

Chwm Taf Morgannwg lle cawsom gyfarfod ag amrywiaeth o fyfyrwyr, hyfforddeion a staff a chawsom sgyrsiau llawn gwybodaeth am gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant ac addysg.

Mae sioeau teithiol yn y dyfodol fel a ganlyn ac rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth i godi ymwybyddiaeth ohonynt gyda myfyrwyr, hyfforddeion, hyfforddwyr, mentoriaid ac unrhyw un sydd â diddordeb yn y gweithlu gofal iechyd ac addysg.

- 16 Mawrth Ysbyty Athrofaol Cymru Caerdydd
- 20 Ebrill 2020 Ysbyty Nevill Hall, y Fenni
- 27 Ebrill 2020 Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli
- 1 Mehefin 2020 Ysbyty Singleton
- 11 Mehefin 2020 Canolfan Ganser Felindre
- 15 Mehefin 2020 Ysbyty Bronllys, Powys.

Gellir dod o hyd i fanylion yr holl arosfannau ar y sioe deithiol ar ein gwefan.

Sgôr Ymgysylltu Meddygol (SYM/MES)

Ar ran byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a Llywodraeth Cymru gofynnwyd i ni gomisiynu ail arolwg sgôr ymgysylltu meddygol. Mae'r arolwg, a gynhaliwyd ychydig flynyddoedd yn ôl, yn cael ei gefnogi gan y BMA a'r cyfarwyddwyr meddygol ac mae'n gofyn am farn meddygon ar amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Mae hefyd yn darparu data lleol yn ogystal â'r potensial ar gyfer adrodd yn genedlaethol ar sut mae meddygon a gyflogir yn uniongyrchol yn teimlo. Gofynnwyd i ni arwain y gwaith hwn o ystyried ein rôl genedlaethol a'n diddordeb mewn lles a phrofiad staff.

Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni a bydd yn rhan o gyfres o opsiynau gan gynnwys arolwg staff GIG Cymru ar gyfer mesur profiad y gweithlu a chael mewnwelediadau gwerthfawr. Mae'r MES yn aros

ar wahân i'r arolwg staff felly rydym yn gallu cymharu canlyniadau'r MES blaenorol a'r newidiadau olrhain yn uniongyrchol ers 2016.

Deddf Lefelau Staff Nyrsio yn trosglwyddo i AaGIC

O Ebrill 2020 ymlaen bydd y cyfrifoldeb am ddatblygu gwaith mewn perthynas â chyflwyno'r Ddeddf Lefelau Staffio Nyrsys newydd yn trosglwyddo i ni o Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC). Bydd tîm y rhaglen sydd wedi'i leoli gyda ICC ar hyn o bryd hefyd yn dod ar draws ac yn ymuno â'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r tîm i AaGIC a Tŷ Dysgu ar 1 Ebrill.

Diweddariad Eduroam

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda gwasanaeth gwybodaeth GIG Cymru (NWIS) ar ddatrysiad posibl er mwyn sicrhau bod Eduroam yn gydnaws â system ddiogel GIG Cymru. Eduroam oedd y system mynediad rhyngrwyd crwydrol a ddarparwyd gan Brifysgol Caerdydd ac a ddefnyddiwyd gan hyfforddwyr meddygol a hyfforddeion cyn sefydlu AaGIC.

Ym mis Rhagfyr fe brofwyd hygyrchedd Eduroam gyda grŵp peilot o hyfforddwyr a hyfforddeion meddygol. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn dangos nifer o gysylltiadau llwyddiannus Eduroam ledled Cymru mewn lleoliadau lle mae Eduroam ar gael. Lle nad yw Eduroam ar gael rydym yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau a Phrifysgol Caerdydd i hyrwyddo'r gwaith o gyflwyno Eduroam yn y lleoliadau hyn. Mae'r grŵp peilot yn parhau i gael mynediad i Eduroam gyda'r farn y bydd grwpiau ychwanegol o ddefnyddwyr yn cael eu hychwanegu maes o law.

Datblygiadau gwasanaeth

AaGIC yn cefnogi'r Cynllun Cadét nyrs RCN Tywysog Cymru

Rydym ni'n cefnogi tair carfan o gadetiaid newydd yng nghynllun cadét nyrs y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN). Nod y cynllun yw ysbrydoli pobl ifanc, yn enwedig y rheini o gefndiroedd amrywiol, drwy roi mynediad iddynt i gyfleoedd ar gyfer astudio academaidd a phrofiad ymarferol yn y sector gofal iechyd. Mae'n cyfuno 105 o oriau o ddysgu drwy brofiad dan arweiniad gyda lleoliadau arsylwadol clinigol o fewn yr ardal gofal iechyd leol ac ar hyn o bryd mae ar agor i 18 cadét, rhwng 16 a 25 oed.

Cynllun prentisiaeth newydd i hybu'r gweithlu gofal iechyd

Mae AaGIC, Sgiliau ar gyfer Iechyd, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau wedi gweithio gyda'i gilydd i greu'r cynlluniau newydd sydd wedi'u hanelu at hyfforddi mwy o ymarferwyr cynorthwyol a fydd yn gweithio mewn rolau cymorth gofal iechyd a meysydd gwyddoniaeth a therapi gofal iechyd.

Mae ymarferwyr cynorthwyol yn staff hanfodol a gwerthfawr sy'n cyflawni rolau sy'n cyd-fynd â phroffesiynau unigol neu ffiniau traws-broffesiynol i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl o bob oed mewn cymunedau ledled Cymru.

Bydd y prentisiaethau, sy'n dechrau yn gynnar yn 2020, yn helpu dysgwyr i ennill y sgiliau newydd sydd eu hangen i gyflawni'r rolau hyn yn ogystal â'u paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol a datblygu gyrfa.

Cofion cynnes

Alex Howells
Prif Weithredwr, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Dear all,

Changes in our Team

Many of you will already know that Stephen Griffiths is retiring from his role as Director of Nursing. Stephen has been a vital member of our team in the establishment of the new organisation and developing our plans and ambitions for the next few years. We are sad that he is leaving us but very much support his decision and wish him all the best for his retirement. This means we will have a vacancy in our Executive Team which we will be trying to fill over the coming months.

In addition we are in the process of advertising secondments for a Director of Digital Services and a Director of Planning and Performance to join us, to ensure that we have the right capacity and expertise in place to enable us to deliver on the plans we have put forward for the next three years. These will be advertised on https://www.jobs.nhs.uk/

Three Year Plan

Our first three year plan (IMTP) has been submitted to Welsh Government for approval. Set out under six strategic aims we have developed a range of priorities and work programmes to help us deliver our vision of transforming the workforce for a healthier Wales. The six strategic aims are:

Workforce Strategy for Health and Social Care

The final draft of the Workforce Strategy for Health and Social Care was approved by the Social Care Wales Board and HEIW Board in December. This has been submitted to Welsh Government and we will let you know next steps as soon as possible.

Leadership strategy

As part of the Workforce Strategy we're continuing to support the development of collective and compassionate leadership across NHS Wales.

A compassionate leadership principles document has been designed based on the extensive evidence for collective and compassionate leadership, and feedback gained from the H&SC Workforce Strategy consultation and leadership engagement conference. These principles will be underpinned by

a framework for action. A six week formal consultation on these principles will commence March 2020.

The HEIW Leadership Portal continues to progress with several pilot sites established. To view an interview on compassionate leadership with Professor Michael West, select this link.

Leadership workshops and events scheduled throughout February 2020 included:

- a review and refresh of the NHS Core Competence Framework for Managers and Supervisors (for launch Spring 2020)
- a review of the Culture and Leadership toolkits developed by NHS England with a view to adopting these tools to support organisations across NHS Wales

Please contact Helen Thomas for further information, or to be involved in any of the Leadership work streams.

Strategic review of health professional education

The strategic review of health professional education is determining the shape of education for the next 10 years. As part of this work, over the next few months we are engaging with stakeholders across Wales including education providers and NHS organisations. We'll also be testing key themes with students, service users and patient groups to make sure the final specification is fit for purpose to enable the procurement process to start.

The emerging themes from the review align with those in the draft Workforce Strategy for Health and Social Care and A Healthier Wales. The key themes

add value to developing a new education contract covering all Health Professional Education in Wales which will focus on:

- HEIW developing its role in **supporting newly qualified staff**
- Further development of a strategic role in **placement provision**
- **Local / regional approach** to commissioning where appropriate
- Building **resilience** in the system
- Using **technologies** to enhance teaching, student support and placement preparation
- Integrate the **digital environment** into learning
- Develop education and training across the **whole career pathway**
- Establish an enhanced approach to **inter-professional education**
- Developing **flexible routes**
- Closer **tripartite working arrangements**
- **Improve responsiveness** to Service Need/ WG policy
- **Supporting students** from disadvantaged backgrounds
- **Dispersed Learning**
- Clinical **Leadership**

These themes will be factored into contracts that take effect from 2021/22. There are three regional Strategic Review stakeholder events for potential bidders scheduled;

- 17th March: North Wales, Venue Cymru Llandudno.
- 20th March: South Wales, Life Science Hub, Cardiff Bay.
- 25th March: West Wales, National Botanic Gardens, Carmarthen.

For any further information regarding the procurement of this contact, please contact Gemma Roscrow or Francesca Havard Evans alternatively for HEIW enquiries please contact Martin Riley.

Annual education and training commissioning meetings

Every year we hold meetings with health boards and trusts to review the provision of postgraduate medical education to ensure that this complies with GMC standards. These are really valuable opportunities to meet with the Executive Directors and education teams from individual organisations. ThMartin.Riley@wales.nhs.ukis year the conversations have taken a new format as we have been talking not only about medicine but all other health professions in line with our ambition to be a truly multi professional organisation.

Independent prescribing optometrists can now write NHS prescriptions

We've been working with health boards and the Welsh Government to ensure optometrists who are registered independent prescribers have access to NHS WP10 prescription pads. Now, independent prescribing optometrists in Cardiff and Vale, Cwm Taf Morgannwg and Aneurin Bevan can write NHS prescriptions for patients directly following an eye assessment. Previously patients would need to see the optometrist for their eye assessment and then their GP to obtain the prescription. Enabling the use of NHS prescriptions more patients can now be managed by an optometrist in practice instead of referring to a GP or an eye hospital. HEIW is also sponsoring optometrists to take independent prescribing courses so that in the next three years every cluster in Wales will have an independent prescribing optometrist.

HEIW Roadshow

We've been back out on the road with a successful visit to Cwm Taf Morgannwg where we met a range of students, trainees and staff and had some very informative conversations about workforce planning, training and education.
Future roadshow stops are as follows and we really appreciate your help

raising awareness of them with students, trainees, trainers, mentors and anyone interested in the healthcare workforce and education.

- 16 March University Hospital of Wales Cardiff
- 20 April 2020 Nevill Hall Hospital, Abergavenny
- 27 April 2020 Prince Philip Hospital, Llanelli
- 1 June 2020 Singleton Hospital
- 11 June 2020 Velindre Cancer Centre
- 15 June 2020 Bronllys Hospital, Powys.

Details of all upcoming roadshow stops can be found on our website.

Medical Engagement Score (MES)

On behalf of health boards, trusts and the Welsh Government we have been asked to commission a second medical engagement score survey. The survey, first carried out a few years ago, is backed by the BMA and Medical Directors and seeks doctors' views on a range of issues related to their work. It also provides local data as well as the potential for national reporting on how directly employed doctors are feeling. We were asked to lead this work given our national role and interest in staff wellbeing and experience.

The survey will run later this year and will be part of a suite of options including the NHS Wales staff survey for measuring workforce experience and gaining valuable insights. The MES is remaining separate from the staff survey so we are able to directly compare results from the previous MES and track changes since 2016.

Nurse Staffing Levels Act transferring to HEIW

From April 2020 responsibility for the development of work in relation to the roll out of the new Nurse Staffing Levels Act will be transferring to us from

Public Health Wales (PHW). The programme team who are currently based with PHW will also be coming across and joining the Nursing Directorate. We look forward to welcoming the team to HEIW and Ty Dysgu on 1 April.

Eduroam update

Over the past few months we've been working with the NHS Wales Information Service (NWIS) on a potential solution to make Eduroam compatible with the NHS Wales secure system. Eduroam was the roaming internet access system provided by Cardiff University and used by medical trainers and trainees prior to the establishment of HEIW.

In December we tested Eduroam accessibility with a pilot group of medical trainers and trainees. Initial results indicate a number of successful Eduroam connections across Wales in locations where Eduroam is available. Where Eduroam is not available we are working closely with local health boards, trusts and Cardiff University to promote the rollout of Eduroam in these locations. The pilot group continues to have access to Eduroam with a view that additional groups of users will be added in due course.

Service developments

HEIW supports RCN Prince of Wales nurse cadet scheme

We're supporting three cohorts of new cadets in the Royal College of Nursing (RCN) Prince of Wales Nurse Cadet Scheme. The scheme aims to inspire young people, particularly those from diverse backgrounds, by giving them access to opportunities for academic study and hands-on experience in the healthcare sector. It combines 105 hours of guided experiential learning with clinical observational placements within the local healthcare area and is currently open to 18 cadets, aged 16 to 25.

[New apprenticeship scheme set to boost healthcare workforce]

HEIW, Skills for Health, Health Boards and Trusts have worked together to create the new schemes aimed at training more assistant practitioners who will work in healthcare support roles and healthcare science and therapy areas.

Assistant practitioners are essential and valued staff who carry out roles which align to individual professions or cross professional boundaries to meet the health and social care needs of people of all ages in communities throughout Wales.

The apprenticeships, which start early in 2020, will help learners gain new skills needed to carry out these job roles as well as preparing them for future employment and career progression.

Best wishes

Alex Howells
Chief Executive, Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Os nad ydych eisiau dderbyn y diweddariad rheolaidd hwn e-bostiwch heiw.communications@wales.nhs.uk os gwelwch yn dda.

If you do not want to receive this regular bulletin please email heiw.communications@wales.nhs.uk

Cymraeg English Cymraeg English

Hawlfraint © AaGIC / GIG Cymru